

# PROTOCOL ARFER GORAU TPC 2D

## GWRANDAWIADAU PREIFAT

### Cyflwyniad

1. Bydd gwrandawriad tribiwnlys fel arfer yn cael ei gynnal yn gyhoeddus, ac maent yn agored i unrhyw un fynychu, gan gynnwys y wasg.

### Deddfwriaeth

- Rheoliad 30(3) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Cymru) 2005 (OS 2005/758)
- Rheoliad 25(3) o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestri ac Apelau) 1993 (OS 1993/290)

*“Bydd y gwrandawriad yn cael ei gynnal yn gyhoeddus, oni bai bod y tribiwnlys prasio yn gorchymyn fel arall ar gais parti, ac ar ôl ei fodloni y byddai buddiannau'r parti hwnnw'n cael ei heffeithio'n niweidiol.”*

- Rheoliad 37(3) o Reoliadau Tribiwnlys Prasio Cymru 2010 (OS 2010/713)

*“Rhaid i'r gwrandawriad gael ei gynnal yn gyhoeddus oni bai bod y Panel Apêl yn gorchymyn fel arall wedi bodloni fod er budd cyfiawnder i gynnal gwrandawriad, neu ran o wrandawriad, yn breifat.”*

### Gwrandawriadau Preifat

2. Gall unrhyw barti ofyn am wrandawriad preifat - 'gwrandawriad mewn camera'.
3. Dylid gwneud cais am wrandawriad preifat i'r Tribiwnlys/Panel Apêl yn gyhoeddus, gan esbonio pam mae'r cais hwnnw'n cael ei wneud.
4. Bydd y Tribiwnlys/Panel Apêl yn ystyried sylw(adau) y parti(on) eraill.
5. Gall aelodau'r Tribiwnlys/Panel Apêl ymddeol i ystyried y cais.
6. Gall y rhesymau dros gynnal gwrandawriad neu ran o wrandawriad yn breifat gynnwys:
  - gwybodaeth gyfrinachol;
  - amddiffyn budd unrhyw blentyn neu berson bregus; neu
  - bod Tribiwnlys/Panel Apêl o'r farn ei fod yn angenrheidiol er budd cyfiawnder.

7. Pan benderfynir y bydd y gwrandawriad yn mynd rhagddo yn breifat, caiff y Tribiwnlys/Panel Apêl gyhoeddi cyfarwyddyd ynghylch pwy y caniateir iddynt fod yn bresennol a phwy sydd ddim.
8. Rhaid nodi penderfyniad i gynnal gwrandawriad neu ran o wrandawriad yn breifat o fewn y rhesymau dros y penderfyniad.
9. Fel rheol, bydd rhesymau'r Tribiwnlys/Panel Apêl dros benderfyniad yn cael eu cyhoeddi; fodd bynnag, bydd gwybodaeth sensitif yn cael ei olygu lle bo angen.